**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: WQ94063

Rhys ab Owen AS/MS
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Rhys.AbOwen@senedd.cymru

07 Hydref 2024

Annwyl Rhys,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r Cwestiwn Ysgrifenedig a gyflwynwyd gennych ar 19 Medi 2024:

*Pryd y mae Awdurdod Cyllid Cymru yn bwriadu darparu gwasanaeth digidol y bydd pob awdurdod lleol yng Nghymru yn gallu optio mewn iddo, yn dilyn y datganiad ysgrifenedig dyddiedig 19 Medi 2024? (WQ94063)*

Fel rhan o ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr, mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn gweithio tuag at allu darparu gwasanaeth digidol a gallu casglu refeniw yn yr ardaloedd awdurdodau lleol hynny sy'n penderfynu optio i mewn.

Mae ACC eisoes wedi dechrau gweithio ar ddyluniad y gwasanaeth. Byddan nhw'n parhau â'r gweithgaredd darganfod, yn datblygu dyluniad y gwasanaeth ymhellach ac yn parhau â'r ymchwil defnyddwyr.

Bydd ACC yn datblygu'r gwasanaeth hwn yn ailadroddol gyda defnyddwyr ac yn unol â'r amserlenni cyflwyno a ragwelir. Unwaith y bydd yn hysbys pa awdurdodau lleol sy'n optio i mewn i'r ardoll ymwelwyr, bydd ACC yn datblygu cynllun gweithredu er mwyn paratoi'r darparwyr llety.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’r dyddiad y daw’r ardoll i rym mewn ardaloedd awdurdodau lleol yn dibynnu ar daith y Bil Ardoll Ymwelwyr drwy’r Senedd, ac ar y prosesau democrataidd lleol sy’n dilyn hynny.

Mae manylion yr amserlen ddangosol ynghyd â gwybodaeth arall am y cynlluniau ar gyfer yr Ardoll Ymwelwyr i'w gweld ar ryngrwyd Llywodraeth Cymru [Ardoll ymwelwyr i Gymru | LLYW.CYMRU.]

O ystyried hyn, y dyddiad cynharaf y disgwylir i gasglu'r ardoll ymwelwyr ddechrau yw mis Ebrill 2027. Mae ACC yn gweithio er mwyn sicrhau bod ei wasanaeth ardoll newydd yn barod i fynd yn fyw o'r dyddiad hwnnw.

Yr eiddoch yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language